

## Adolygiad Cyflym Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru (WCEC)

**Effaith y pandemig COVID-19 ar iechyd pobl anabl ac ar eu gallu i  
gael gafael mewn gofal iechyd: adolygiad cyflym  
Rhif adroddiad – RR00025 (Mawrth 2022)**

### Manylion yr Adolygiad Cyflym

**Adolygiad wedi'i gynnal gan:**

Uned Arbenigol ar gyfer Tystiolaeth Adolygu

**Tîm Adolygu:**

- Helen Morgan
- Mala Mann
- Lydia Searchfield
- Kate Lifford
- Freya Davies
- Andrew Cleves
- Alison Weighman

**Adolygiad wedi'i gyflwyno i WCEC ar:**

18<sup>fed</sup> Chwefror 2022

**Cyfarfod ymgynghori â rhanddeiliaid:**

1<sup>af</sup> Chwefror 2022

**Adroddiad ar yr Adolygiad Cyflym wedi'i gyhoeddi gan WCEC ar:**

24<sup>fed</sup> Mawrth 2022

**Tîm WCEC:**

- Adrian Edwards, Alison Cooper, Ruth Lewis, Becki Law, Jane Greenwell a Micaela Gal, a gyfrannodd at ei ddrafftio, llunio'r Crynodeb o'r Prif Bwyntiau a'i olygu

**Dylid dyfynnu'r adolygiad hwn fel a ganlyn:**

RR00025\_Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru. Adolygiad cyflym o effaith y pandemig COVID-19 ar iechyd pobl anabl ac ar eu gallu i gael gafael mewn gofal iechyd. Mawrth 2022

[http://www.primecentre.wales/resources/RR/RR00025\\_Wales\\_COVID-19\\_Evidence\\_Centre\\_Rapid\\_Review\\_of\\_health\\_effects\\_of\\_COVID\\_on\\_disabled\\_March-2022-cy.pdf](http://www.primecentre.wales/resources/RR/RR00025_Wales_COVID-19_Evidence_Centre_Rapid_Review_of_health_effects_of_COVID_on_disabled_March-2022-cy.pdf)

**Ymwadiad:** Barn yr awduron yw'r rhai sydd wedi'u mynegi yn y cyhoeddiad hwn, yn hytrach na barn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o reidrwydd. Mae WCEC ac awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro.

**Effaith y pandemig COVID-19 ar iechyd pobl anabl ac ar eu gallu i gael gafael mewn gofal iechyd: adolygiad cyflym**  
**Rhif adroddiad – RR00025 (Mawrth 2022)**

**CRYNODEB O'R PRIF BWYNTIAU**

**Beth ydy Adolygiad Cyflym?**

Mae ein hadolygiadau cyflym yn defnyddio amrywiad ar y dull adolygu systematig, gan dalfyrro neu hepgor rhai cydrannau i gynhyrchu'r dystiolaeth er mwyn hysbysu rhanddeiliaid yn brydlon ond eto bob amser rhoi sylw i duedd. Maent yn dilyn yr argymhellion methodolegol a'r safonau gofynnol ar gyfer cynnal adolygiadau cyflym ac adrodd arnynt, gan gynnwys protocol strwythuredig, chwilio systematig, sgrinio, tynnu data, arfarnu beirniadol a chyfuno tystiolaeth i ateb cwestiwn penodol a nodi bylchau allweddol mewn ymchwil. Maent yn cymryd 1-2 fis, gan ddibynnu ar ehangder a chymhlethdod y pwnc/ cwestiwn/ cwestiynau ymchwil, graddau'r sylfaen dystiolaeth a'r math o ddadansoddi sy'n ofynnol i gyfuno'r dystiolaeth.

Mae yna gysylltiad rhwng yr adroddiad hwn a map cyflym o dystiolaeth a gyhoeddwyd dan yr enw: Effaith y pandemig COVID-19 ar blant ac oedolion anabl ar draws parthau bywyd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: map cyflym o dystiolaeth, rhif adroddiad – REM00025 Rhagfyr 2021 ( [http://www.primecentre.wales/resources/REM00025\\_Wales\\_COVID-2019\\_Evidence\\_Centre\\_Rapid\\_Evidence\\_Map\\_of\\_health\\_effects\\_of\\_COVID\\_on\\_disabled\\_March\\_2022-cy.pdf](http://www.primecentre.wales/resources/REM00025_Wales_COVID-2019_Evidence_Centre_Rapid_Evidence_Map_of_health_effects_of_COVID_on_disabled_March_2022-cy.pdf) )

**Cefndir / Nod yr Adolygiad Cyflym**

Awgrymodd Cangen Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru'r cwestiwn ymchwil ar sail darganfyddiadau'r adroddiad '[Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19](#)', â'r nod o ddarparu sail ar gyfer gwaith Tasglu Hawliau Pobl Anabl, Llywodraeth Cymru. Mae'r Adolygiad Cyflym hwn yn dilyn ymlaen o Fap Cyflym o Dystiolaeth (REM 00025 [http://www.primecentre.wales/resources/REM00025\\_Wales\\_COVID-2019\\_Evidence\\_Centre\\_Rapid\\_Evidence\\_Map\\_of\\_health\\_effects\\_of\\_COVID\\_on\\_disabled\\_March\\_2022-cy.pdf](http://www.primecentre.wales/resources/REM00025_Wales_COVID-2019_Evidence_Centre_Rapid_Evidence_Map_of_health_effects_of_COVID_on_disabled_March_2022-cy.pdf) ) ar sail methodoleg adolygiad cwmpasu, a ddefnyddiwyd i nodi maes ymchwil i'w flaenoriaethu. Ar sail y map o dystiolaeth, a oedd yn cynnwys tystiolaeth yn rhychwantu pob un o chwe pharth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, detholwyd 'iechyd' fel ffocws i'r adolygiad hwn. Canolbwyntiodd yr adolygiad hefyd ar astudiaethau'r DU oedd wedi'u hadolygu gan gymheiriaid a llenyddiaeth lwyd gadarn a oedd yn adrodd ar ddeilliannau oedd heb eu cofnodi yn yr astudiaethau oedd wedi'u hadolygu gan gymheiriaid.

**Darganfyddiadau Allweddol**

*Graddau'r sylfaen dystiolaeth*

- Cynhwyswyd 19 (18 wedi'u hadolygu gan gymheiriaid) o astudiaethau'r DU (10 meintiol, 5 ansoddol, 4 dulliau cymysg).
- Roedd 8 astudiaeth yn cynnwys oedolion (gyda 5 yn edrych ar namau penodol), 7 yn

cynnwys plant (pob un yn edrych ar namau penodol), a 4 yn cynnwys oedolion a phlant (3 astudiaeth yn edrych ar bobl â namau dysgu). Roedd 3 astudiaeth yn ystyried pobl anabl fel grŵp cyfan.

- Roedd 7 astudiaeth yn cymharu â naill ai data cyn y pandemig neu â phobl nad ydynt yn anabl.
- Nid oedd yr un o'r astudiaethau'n edrych yn benodol ar boblogaethau Cymru.
- Mae'n bosibl nad yw'r ymchwil yn gynrychioliadol o boblogaethau o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel neu gymunedau Du, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig.
- Ni nodwyd unrhyw astudiaethau ynglŷn â statws pobl anabl o ran brechlyn COVID-19.

### *Darganfyddiadau allweddol*

- Nododd astudiaethau a oedd yn adrodd ar **gael gafael mewn gofal iechyd** (n=7) nifer o bryderon neu broblemau o ran cael gafael mewn gwasanaethau. Yn ôl un adroddiad, **roedd pobl anabl ddwywaith a mwy mor debygol o ddweud eu bod wedi aros am ymyriad iechyd** yn ystod ton gyntaf y pandemig COVID-19, o'u cymharu â phobl nad ydynt yn anabl ac **roeddent yn sylweddol fwy tebygol o ddweud bod angen iddynt gael gafael mewn gwasanaethau amrywiol** na phobl nad ydynt yn anabl. **Mae profiad o wasanaethau o bell a mynediad atynt yn amrywio**. Roedd yna rai adroddiadau positif ynglŷn â **theleiechyd** ond nid oedd hyn yn wir am bawb ac mae angen ystyried anghenion unigol yn ofalus. Roedd defnyddio **masgiau wyneb** a **diffyg apwyntiadau wyneb yn wyneb neu gynnig dulliau eraill yn lle wedi effeithio ar alluoedd pobl oedd yn colli eu clyw i glywed neu gyfathrebu**.
- Roedd astudiaethau a oedd yn adrodd ar **ddeilliannau iechyd** (n=7) yn canolbwyntio ar ddeilliannau o ganlyniad i effaith y pandemig COVID-19. **Nid oedd pobl anabl yn fwy tebygol o roi gwybod am symptomau COVID-19** na phobl nad ydynt yn anabl, ond roeddent **yn fwy tebygol o orfod mynd i'r ysbyty** oherwydd COVID-19. Wrth edrych ar y grŵp cymharu yn y boblogaeth gyffredinol, **roedd cleifion â nam dysgu yn llai tebygol o dderbyn cefnogaeth anadlu anfewnwthiol, tiwbiau wedi'u mewnosod, a/ neu o gael eu derbyn i Uned Gofal Dwys** tra'u bod yn yr ysbyty (ni chasglwyd unrhyw ddata ynglŷn â'r rhesymau pam). **Roedd y cyfnod yn aros yn yr ysbyty, ar gyfartaledd, 3.5 diwrnod yn hirach ar gyfer y rhai a gymerodd ran yn yr astudiaethau hyn o'u cymharu â'r grwpiau cymharu**.
- Yn ôl astudiaethau a oedd yn edrych ar **gyfraddau marwolaethau** (n=3) rhwng pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl, roedd yr anghydraddoldebau yn sylweddol o ran cyfraddau marwolaethau ar gyfer pobl anabl. Mae'n werth gwneud sylw bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021) wedi dod i'r casgliad bod y risg o farw mewn cysylltiad â COVID-19 **3.1 gwaith yn fwy ar gyfer dynion mwy anabl a 1.9 gwaith yn fwy ar gyfer dynion llai anabl**, o'u cymharu â dynion nad ydynt yn anabl; ymhlith menywod, roedd y risg o farw **3.5 gwaith yn fwy ar gyfer menywod mwy anabl a 2.0 gwaith yn fwy ar gyfer menywod llai anabl**, o'u cymharu â menywod nad ydynt yn anabl. Ni allai dulliau ystadegol nodi un ffactor i esbonio'r risgiau mwy o farw; roedd **lle roeddent yn byw, amgylchiadau economaidd-gymdeithasol a daearyddol, a chyflyrau iechyd oedd eisoes yn bodoli oll yn cyfrannu**.
- Nododd astudiaethau a oedd yn adrodd ar **iechyd meddwl** (n=13) **amrywiaeth o effeithiau negyddol** ar gyfer **oedolion a phlant**, er na wnaeth un astudiaeth a oedd yn edrych ar yr effeithiau **ar blant â nam dysgu ddarganfod unrhyw wahaniaeth rhwng cyfnodau cyn cyfyngiadau symud ac ar ôl cyfyngiadau symud**; yn ôl **rhai adroddiadau** roedd yna **welliannau mewn iechyd meddwl** fel yn achos plant a oedd yn teimlo'n fwy diogel gartref neu a oedd yn dioddef straen yn gysylltiedig â'r ysgol. Yn ôl oedolion oedd yn colli eu clyw, roeddent yn mwynhau'r amgylcheddau awyr agored tawelach ac yn teimlo'n ysgafnach eu calonnau nad oedd yn rhaid iddynt fynychu cynulliadau cymdeithasol. Nododd un astudiaeth fod **sefydliadau'r trydydd sector** wedi cael **effaith bositif ar lesiant ac iechyd meddwl** trwy lenwi bylchau mewn gofal cymdeithasol. Roedd yn glir bod profiadau unigolion wedi amrywio.

### *Diweddaredd y sylfaen dystiolaeth*

- Cyhoeddwyd mwyafrif (n=17) yr astudiaethau a gynhwyswyd yn 2021.
- Roedd y mwyafrif (n=16) **yn cynnwys data o 'don 1'**. Roedd dwy astudiaeth (Williamson et al. 2021; y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2021) wedi casglu data o 'don 2' (Winter 2020-21), cyn rhoi'r rhaglen frechu ar waith.

### *Tystiolaeth o'r ansawdd gorau*

- Defnyddiodd dwy astudiaeth feintiol (y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2021; Williamson et al. 2021) setiau data cleifion mawr i ymchwilio i farwolaethau'n gysylltiedig â COVID-19.

### **Goblygiadau i Bolisi**

- Dygodd yr ymchwil sylw at heriau roedd pobl anabl wedi'u hwynebu wrth geisio cael gafael mewn gwasanaethau iechyd. Ffeirir y **model cymdeithasol** yn hytrach na'r model meddygol i ddeall yr heriau hyn (a'u cydadweithiau), a'r ystod o ddylanwadau sefyllfaol a rhwystrau cyd-destunol y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt.
- Mae'r darganfyddiadau'n dangos, er bod **teleiechyd yn gallu bod o werth i rai**, nid yw hyn yn wir am bawb ac mae'n rhaid ystyried anghenion unigol yn ofalus.
- Mae angen rhagor o ymchwil i werthuso effaith drawsbynciol **meysydd anghydraddoldeb posibl eraill**.
- Mae angen ystyried y cynlluniau adfer ar gyfer gwasanaethau cleifion a sut y bydd y rhain yn **diwallu anghenion pobl anabl**.
- **Ni nodwyd unrhyw astudiaethau ynglŷn â statws pobl anabl o ran brechlyn COVID-19**. Er y dylid nodi bod yr holl astudiaethau a gynhwyswyd wedi'u cynnal cyn rhoi'r rhaglen frechu ar waith.

### **Cryfder y Dystiolaeth**

Roedd yna amrywiad sylweddol rhwng yr astudiaethau o ran dyluniad yr astudiaeth, poblogaethau a deilliannau. Roedd ansawdd yr astudiaethau'n amrywio o isel i gymedrol, gan fod gan bob astudiaeth rai gwendidau naill ai o ran y ffordd o'u cynnal neu o ran y ffordd o adrodd ar eu dulliau.

[http://www.primecentre.wales/resources/RR/RR00025\\_Wales\\_COVID-19\\_Evidence\\_Centre\\_Rapid\\_Review\\_of\\_health\\_effects\\_of\\_COVID\\_on\\_disabled\\_March-2022.pdf](http://www.primecentre.wales/resources/RR/RR00025_Wales_COVID-19_Evidence_Centre_Rapid_Review_of_health_effects_of_COVID_on_disabled_March-2022.pdf)